

## Strategaethau ar gyfer gweithio gyda thadau

Mae'r papur arfer da hwn yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil a phrofiad ymarferwyr ledled Cymru. Diolch i Grwpiau Tadau Abertawe am rannu eu profiadau a'u harbenigedd er mwyn helpu i lunio'r papur hwn.

### 1. Ystyried yr amrywiaeth o dadau

Yn ogystal â thadau biolegol, gall llys dadau, tadau mabwysiedig neu dadau maeth, teidiau, ewythrod, brodyr neu bartner newydd fod yn ffigur tadol i blentyn. Mae mathau amrywiol iawn o dadau yn bodoli, gan gynnwys rhai sy'n sengl, yn ifanc, yn hoyw, neu'n dod o gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Y peth pwysig yw eu bod yn ddylanwad gwrywaidd cadarnhaol ar y plentyn.



### 2. Deall faint o ddylanwad y mae tadau'n ei gael

Un strategaeth i gymell dynion i chwarae mwy o ran yw dweud wrthyn nhw am y dylanwad enfawr sydd ganddynt ar ddatblygiad eu plentyn. Mae ymchwil yn dangos bod plant sydd â thadau sy'n rhan fawr o'u bywydau yn fwy tebygol o:

- ddatblygu sgiliau ieithyddol gwell a chael cyrhaeddiad addysgol gwell;
- cael llai o broblemau ymddygiad; a
- bod yn fwy cadarn, ymdopi â straen yn well a chael mwy o hunan-hyder.

### 3. Bod yn ymwybodol o'r pethau sy'n rhwystro tadau rhag defnyddio gwasanaethau

- Efallai bod dynion yn gweld bod gwasanaethau rhieni wedi'u hanelu yn bennaf at famau.
- Efallai bod rhai tadau'n credu nad oes disgwyl iddynt fynd i apwyntiadau na bod yn bresennol mewn ymweliadau â'r cartref.
- Efallai bod rhai tadau yn ofni ymuno ac yn ofni mai nhw fydd yr unig ddyn yn y grŵp.

- Un o'r rhwystrau pennaf rhag cymryd rhan yw'r teimlad y gallai tadau gael eu beirniadu neu eu hystyried yn wan neu'n dad gwael am fod angen help a chefnogaeth arnynt. Efallai eu bod yn bryderus y byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu galw os oes angen help arnynt.
- Efallai bod rhai tadau yn credu bod gofyn am help yn niweidio eu balchder.
- Mae tadau yn wynebu rhwystrau tebyg i famau wrth ddefnyddio gwasanaethau, megis arwahanu cymdeithasol, ofni'r hyn sy'n anhysbys, pryderon am gael eu gwyllo a'u beirniadu, teimlo na fyddant yn cael eu derbyn oherwydd eu hoed neu eu cefndir ethnig, yn ogystal â rhwystrau ymarferol fel trafndiaeth a gofal plant.



#### 4. Asesu pa mor gyfeillgar rydych tuag at dadau

- A dybir y bydd tadau yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar fod yn rhiant neu a ydynt yn cael eu gweld fel rhiant ychwanegol?
- A yw ymarferwyr yn mynd ati i dargedu tadau yn benodol? – gan ystyried asesiad risg (yn yr un modd â mamau)
- A yw'r amgylchedd ffisegol yn croesawu tadau?
- A yw'r geiriau a'r delweddau a ddefnyddir mewn deunyddiau hyrwyddo yn adlewyrchu tadau?
- A yw ffurflenni atgyfeirio yn gofyn am fanylion y tad, hyd yn oed os yw'n absennol?
- A yw'r amrywiaeth a'r math o weithgareddau sydd ar gael yn apelio at ddynion yn ogystal ag at fenywod?

#### 5. Ystyried strategaethau ar gyfer ymgysylltu â thadau

- Mae'r enedigaeth yn amser da i ymgysylltu â thadau, pan maent yn fwyaf agored i dderbyn gwybodaeth a chymorth.
- Byddwch yn hyblyg – cynigwch sesiynau a gweithgareddau gyda'r nos neu ar y penwythnos yn ogystal ag yn ystod y dydd (efallai y bydd angen ystyried telerau ac amodau staff).
- Gwahoddwch 'mamau a thadau', nid dim ond 'rhieni'. Gallech ofyn i'r plentyn estyn gwahoddiad yn benodol i'w Dad, neu ddyn sy'n bwysig iddo, i ddod i ddigwyddiadau. Gallent dynnu llun a/neu ysgrifennu'r gwahoddiad i'w tad neu daid. Byddai nifer o ddynion yn ei chael yn anodd anwybyddu gwahoddiad uniongyrchol gan eu plentyn. Ond wrth ddefnyddio'r dull hwn, byddwch yn ofalus i beidio â difrio plant, er enghraifft os nad yw'r tad yn bresennol, neu gyda theuluoedd LGBT.
- Dylech ystyried sut rydych yn marchnata eich grŵp neu'r sesiwn. Mae'n bosibl y bydd tadau'n fwy tebygol o fynychu sesiwn grŵp sy'n ymarferol ac sydd â diben clir, gwerthfawr iddyn nhw a'u teuluoedd. Efallai y bydd yn helpu i gadw teitlau a disgrifiadau'n fyr, gan ganolbwyntio ar y plant neu ar y teulu. Er enghraifft, Gwneud y Mwyaf o Dadolaeth; Mae Tadau yn Bwysig; ac efallai y bydd brecwast llawn yn apelio'n fwy at dadau na bore coffi neu grŵp cymorth.

- Dylech feithrin perthynas â'r tadau cyn eu bod yn dod i'r grŵp (er enghraifft, ymweld â'r cartref neu sesiynau blasu).
- Mae tadau'n credu mai'r nodweddion sy'n bwysig mewn hwylusydd da yw cael synnwyr digrifwch, bod yn hawddgar, peidio â beirniadu, bod yn ddylanwad da, gallu uniaethu â thadau a mabwysiadu arddull ryngweithiol, hwyliog o weithio.
- Does dim o'i le ar gael hwyluswyr benywaidd, ond mae menywod yn cael eu hystyried yn arbenigwyr yn aml. Mae cael hwylusydd gwrywaidd yn gallu chwalu rhwystrau. Dewisiadau'r rhieni, sgiliau'r hwylusydd a phersonoliaethau sy'n bwysig yn y pen draw.
- Dylech gynnig cymorth ymarferol i dadau, atgyfeiriadau ac adnoddau ar gyfer materion ar wahân i rianta (mewn partneriaethau ag asiantaethau eraill). Mae hyn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth.
- Dangoswch i dadau sut y mae dynion eraill yn cymryd rhan ym mywydau eu plant.
- Mae dechrau drwy gymdeithasu a chael gweithgareddau hwyliog yn chwalu rhwystrau ac yn helpu tadau i ymlacio. Gall darparu lluniaeth ysgafn hefyd eu denu.
- Dylech annog mamau i ddod â'u partner gyda nhw – mae dynion yn fwy tebygol o gymryd rhan os yw eu partneriaid yn eu hannog i wneud hynny. Mae partion diwedd tymor, diwrnodau hwyl a digwyddiadau anffurfiol eraill yn ffordd dda o alluogi hyn.
- Dylech helpu staff i deimlo'n fwy hyderus a chymwys wrth ymgysylltu â thadau.



### Adnoddau:

Mae **Rhianta yng Nghymru: canllawiau ar ymgysylltu a chymorth** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â thadau a dulliau i gefnogi a chynnwys rhieni <http://bit.ly/2eSnpil>

Mae gan **The Fatherhood Institute** wybodaeth ddefnyddiol gan gynnwys pecyn adnoddau ar gyfer tadau ifanc <http://bit.ly/2eihtnv>, rhestr wirio ar gyfer cynnwys tadau mewn rhaglenni i rieni <http://bit.ly/2dkgSxi> a chwrs ar-lein am ddim "Dads Included" <http://bit.ly/2d1Jpsi>

### Cysylltwch â:

Thîm Rhianta Llywodraeth Cymru drwy e-bostio [MaguPlant@cymru.gsi.gov.uk](mailto:MaguPlant@cymru.gsi.gov.uk)

[llyw.cymru/rhowchamseriddo](http://llyw.cymru/rhowchamseriddo)

